



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Gwnewch
Wahaniaeth
gyda ni**

Prentisiaethau 2019

Canllawiau i Ymgeiswyr

Canllaw gwybodaeth fesul cam ar wneud cais am
Brentisiaeth Llywodraeth Cymru

llyw.cymru/prentisiaethau2019

Rydym yn hysbysebu dau gyfle ar wahân sy'n cynnig gwahanol gymwysterau. Mae un yn hysbyseb digidol a byddwch yn cael eich rhoi mewn rôl ddigidol ac mae'r ail ar gyfer rolau mwy generig a all gynnig amrywiaeth o wahanol gymwysterau.

Prentisiaethau Llwybr Digidol, Data a Technoleg (DDaT):

- **Cymhwyster Digidol lefel tri**

Prentisiaethau rôl benodol – rolau generig:

- **Gweinyddu Busnes**
- **Gwasanaeth Cwsmeriaid**
- **TGCh**

Gyda'n prentisiaethau rôl benodol, bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn dilyn y cymhwyster sydd fwyaf priodol i'r swydd a gynigir iddyn nhw. Yn anffodus ni all ymgeiswyr ddewis pa brentisiaeth i'w dilyn ond byddwn yn ystyried dewisiadau'r ymgeisydd lle bo modd.

Mae'r broses ddethol yn cynnwys asesu ffurflenni cais a chyfweliadau fel cam olaf.

ALS yw ein darparwyr hyfforddiant, a byddant yn darparu'r hyfforddiant Prentisiaeth NVQ lefel 3. Mae gan ALS eu gofynion cymhwysedd eu hunain ar gyfer elfen hyfforddi'r brentisiaeth a byddant yn rheoli hyn ar wahân.

1. Ffurflen gais a chamau asesu

I wneud cais, cliciwch y botwm 'Gwneud cais nawr' ar wefan '**Prentisiaid 2019**'¹. Dewiswch pa brentisiaethau yr hoffech chi eu gweld. Bydd hyn yn mynd â chi at ddisgrifiad o gynlluniau Prentisiaeth 2019, gan gynnwys disgrifiad o'r ymddygiad a'r sgiliau y bydd angen i chi roi tystiolaeth ohonyn nhw yn eich cais. Mae'n bwysig eich bod chi'n darllen hwn yn ofalus. Ar waelod y disgrifiad swydd wag fe welwch chi'r botwm 'Gwneud Cais'.

Fel y nodir uchod, rydym yn hysbysebu dau gynllun ar wahân eleni, prentisiaeth ddigidol a phrentisiaethau rôl benodol lle cewch eich paru â chymhwyster.

Bydd angen i chi wneud cais am y ddau hysbyseb os oes gennych chi ddi-ddordeb yn y ddwy rôl sy'n cael eu cynnig.

I gael gafael ar y ffurflen gais, bydd angen i chi gofrestru ar system ymgeisio ar-lein Llywodraeth Cymru. Efallai eich bod chi wedi gwneud hyn yn barod os wnaethoch chi gofrestru ar gyfer ein Banc Talent Prentisiaid, felly cliciwch ar 'Mewngofnodi' a nodi'ch manylion. Os nad ydych chi wedi cofrestru'n barod, cwblhewch y ffurflen gofrestru fer a'i chyflwyno. Ar ôl i chi gofrestru/mewngofnodi, cewch eich arwain at y ffurflen gais.

Da o beth fyddai bwrw golwg ar y ffurflen gais cyn gynted â phosib, fel eich bod chi'n gwybod pa wybodaeth fydd angen i chi ei pharatoi a'i darparu cyn ei chyflwyno. Does dim rheid i chi lenwi'r holl ffurflen gais ar yr un pryd – gallwch arbed eich gwybodaeth a mewngofnodi cymaint o weithiau ag y dymunwch cyn y dyddiad cau, sef 4pm ar 16 Medi.

Fel rhan o'ch cais, gofynnir i chi lenwi holiadur amrywiaeth. Ni fydd ateb y cwestiynau hyn yn effeithio ar eich cais.

Cofiwch wirio'ch cais yn drylwyr cyn ei gyflwyno.

Ar ôl i chi gyflwyno'ch ffurflen gais, bydd y broses ddethol yn cynnwys y camau canlynol:

- **Cam 1 - Asesu ar sail cwestiwn 1 a gwiriad cymhwysedd ALS**
- **Cam 2 - Asesu ar sail cais llawn**
- **Cam 3 - Cyfweliad**
- **Cam 4 - Prawf ALS**

Cam 1 – Asesu ffurflen gais ar sail Cwestiwn 1

Cyfeiriwch at ein **Canllawiau ar ysgrifennu eich tystiolaeth**² i lenwi'r adran hon.

Bydd yr ateb a rowch i gwestiwn 1 yn cael ei asesu gan banel recriwtio ac os byddwch chi'n llwyddiannus yn ystod y cam hwn bydd eich manylion yn cael eu trosglwyddo i ALS, ein darparwr hyfforddiant, i gynnal gwiriad cymhwysedd.

¹ <https://beta.llyw.cymru/prentisiaethau-2019>

Os na fyddwch chi'n llwyddiannus yn ystod yr asesiad ar gyfer Cwestiwn 1, ni fydd eich cais yn symud ymlaen i'r cam nesaf. Bydd ymgeiswyr aflwyddiannus yn derbyn e-bost yn eu hysbysu am hyn ar yr adeg hon.

Cam 2 – Asesu cais llawn

Yn ystod y cam hwn, bydd y panel recriwtio'n asesu'ch tystiolaeth ar gyfer y cwestiynau 2 a 3 sy'n weddill ar eich ffurflen gais.

Gofynnir i ymgeiswyr sy'n llwyddiannus yn y cam hwn ddod i gyfweiliad. Bydd ymgeiswyr aflwyddiannus yn derbyn hysbysiad yn ystod y cam hwn o'r broses hefyd.

Cam 3 – Cyfweiliad

Cynhelir cyfweiliadau yng (Nghaerdydd, Merthyr, Abertawe a Chyffordd Llandudno) fwy na thebyg, rhwng 28 Hydref 2019 ac 8 Tachwedd 2019. Fe'ch gwahoddir drwy e-bost i ddewis slot cyfweled yn eich lleoliad/dyddiad/amser o ddewis.

Byddwch yn ymwybodol bod slotiau cyfweiliad yn cael eu bwcio ar sail y cyntaf i'r felin, ac felly does dim sicrwydd y cewch chi eich cyfweled yn eich ardal o ddewis, felly efallai y bydd gofyn i chi deithio. Os cewch chi eich gwahodd i gyfweiliad bydd gofyn ichi ddod â dogfennau adnabod gyda chi fel y gallwn ni baratoi gwiriadau fetio ar eich cyfer os byddwch chi'n llwyddiannus.

Anfonir canllawiau atoch chi gyda'ch gwahoddiad i gyfweiliad. Bydd pob copi o ddogfennau adnabod yn cael eu carpio ar ôl cyfweiliad os na fyddwch chi'n llwyddiannus yn y cam hwn.

Cyfeiriwch at ein **canllaw Cyfweiliad**³ i gael mwy o wybodaeth ar sut i baratoi ar gyfer y cam hwn o'r cais.

Cam 4 – Prawf argymhelliad ALS

Pam mae angen hyn?

Mae'n un o ofynion ein partner hyfforddi, ALS, eich bod yn llenwi'r ffurflen hon gan fod rhaid iddyn nhw adolygu'ch cymhwysedd ar gyfer y rhaglen Brentisiaeth. Bydd Llywodraeth Cymru'n anfon eich Ffurflen Argymhelliad gyflawn at ALS os byddwch chi'n pasio pob un o gamau cyntaf yr asesiad fel y manylir uchod.

Bydd ALS yn cysylltu â chi'n uniongyrchol i drafod os oes ganddynt unrhyw gwestiynau ynghylch eich ffurflen.

Sylwch – er na fydd angen i chi gyflwyno tystysgrifau addysg ar hyn o bryd, os ydych chi'n llwyddiannus ac yn cael cynnig prentisiaeth, efallai y bydd ALS yn gofyn am gael gweld copïau ohonynt.

Os byddwch chi'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd i gael cyllid NVQ, anfonir dolen i'r prawf asesu ar-lein atoch chi, sef cam nesaf eich proses ymgeisio. Bydd ymgeiswyr nad ydynt yn gymwys i gael yr arian yn derbyn hysbysiad ar yr adeg hon.

Bydd ALS yn asesu eich sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol i sicrhau bod eich sgiliau o safon briodol ar gyfer lefel y cymhwyster y byddwch chi'n ei gwblhau. Bydd ALS yn rhoi'r holl arweiniad angenrheidiol i chi am y cam hwn o'r broses.

Sylwch: mae'r cam hwn o'r broses ymgeisio yn cael ei arwain a'i reoli'n llwyr gan ALS a dylech anfon unrhyw gwestiynau sydd gennych yn ystod y cam hwn atyn nhw mewn e-bost at emma.jones@alstraining.org.uk neu ffonio 029 2267 7020 a gofyn am Emma Jones.

Ni fyddwch yn derbyn canlyniad ar yr adeg hon gan fod hon yn broses barhaus. Bydd pob ymgeisydd yn cael gwybod ei ganlyniadau ar ôl cam 4 y broses ymgeisio.

² <https://llyw.cymru/sites/default/files/inline-documents/2019-08/prentisiaethau-canllawiau-ar-ysgrifennu-eich-cais.pdf>

³ <https://llyw.cymru/sites/default/files/inline-documents/2019-08/prentisiaethau-canllaw-cyfweiliad.pdf>

2. Ymgeiswyr Anabl

Rydym yn gyflogwr Hyderus o ran Anabledd ac rydym yn annog ceisiadau gan bobl anabl yn frwd (fel y'u diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010).

Cynllun Cyfweiliad Hyderus o ran Anabledd

Fel rhan o'n hymrwymiad i annog pobl anabl i ymgeisio am swydd yn Llywodraeth Cymru, byddwn yn cynnig cyfweiliad i bobl anabl sy'n bodloni'r gofynion sylfaenol ar gyfer y swydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod rhwystrau mewn cymdeithas sy'n analluogi pobl sydd â namau neu gyflyrau iechyd neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwmo i ddileu rhwystrau fel y gall pob aelod o staff (neu aelodau staff newydd posibl) berfformio ar ei orau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd ("nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd").

Rydym yn gwarantu y byddwn yn cynnig cyfweiliad i unrhyw un sy'n anabl os yw ei gais yn bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae bodloni'r 'meini prawf sylfaenol' yn golygu bod rhaid ichi ddarparu tystiolaeth yn eich cais i ddangos eich bod yn bodloni'r lefel ofynnol ar gyfer pob cymhwysedd, ac unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiadau a ddiffinnir yn rhai hanfodol. Rhowch wybod i ni hefyd am unrhyw drefniadau arbennig ar gyfer cyfweiliad y bydd eu hangen arnoch, i'n galluogi i wneud y trefniadau priodol. Os llwyddwch i gael eich penodi, byddwn yn gweithio gyda chi i sicrhau bod addasiadau rhesymol i'r gweithle ar waith yn fuan wedyn.

⁴ <http://getonline.digitalcommunities.gov.wales/>

3. Help i fynd ar-lein

Os nad oes gennych chi gyfrifiadur neu ddyfais i gwblhau eich cais gallwch chwilio am **bob man cyhoeddus**⁴ yng Nghymru lle gallwch chi ddefnyddio cyfrifiaduron, y rhyngwyd a mathau eraill o dechnoleg ddigidol am ddim. Yn y rhan fwyaf o'r manau hyn, bydd rhywun wrth law i'ch helpu gyda'r offer ac unrhyw gwestiynau digidol/TG a allai fod gennych chi hefyd.

4. Ar ôl eich cyfweiliad

Ein nod yw rhoi gwybod i chi am ganlyniad eich cyfweiliad erbyn diwedd mis Tachwedd 2019.

Os byddwch chi'n llwyddiannus, byddwn yn gallu dweud wrthy'ch chi am eich rôl, eich adran a'ch lleoliad. Byddwch yn derbyn gwybodaeth am y camau nesaf hefyd, gan gynnwys gwiriadau cyn penodi. Mae'r broses gwiriadau cyn cyflogi'n cynnwys gwirio'ch geirdaon.

Os byddwch chi'n rhoi'r holl ddogfennau gofynnol i ni a bod eich gwiriadau cyn penodi'n llwyddiannus, y gobaith yw y byddwch chi'n dechrau yn eich rôl newydd erbyn diwedd mis Ionawr 2020, yn dibynnu ar ymrwymadau gwyliau a chyfnodau rhybudd os oes rhai.

Bydd ymgeiswyr aflwyddiannus yn derbyn hysbysiad yn ystod y cam hwn o'r broses hefyd.

I gael gwybodaeth ewch i:

www.llyw.cymru/prentis-2019 sy'n cynnwys adran cwestiynau cyffredin.



Mae'r Rhaglenni Prentisiaeth, a arweinir gan Lywodraeth Cymru, yn cael cymorth ariannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop.

The Apprenticeship led by the Welsh Government, is supported by the European Social Fund.